"Cysylltais gyda Gisda yn gyntaf pan roeddwn yn 15 oed. Roedd fy rhieni wedi ymfudo i Tenerife ac roeddwn wedi penderfynu aros yng Nghaernarfon i ddarfod fy arholiadau TGAU. Y cynllun yn wreiddiol oedd i mi fyw yn nhŷ fy mrawd hynaf ac roeddwn yn ddiolchgar bod fy rhieni yn cysidro fy mod yn ddigon cyfrifol i edrych ar ôl fy hun a finnau mor ifanc.

Wrth gwrs roedd yna anghytundebau yn y tŷ. Penderfynais ar ôl ychydig o fisoedd buaswn yn mentro allan ar ben fy hun a gadewais dŷ fy mrawd. Nid oedd yn hir cyn bod staff Gisda yn dweud wrthyf fod cysgu ar soffa neu ar lawr ystafell byw pobl eraill ddim digon da i blentyn yn ei arddegau oedd yn astudio er mwyn cymryd ei arholiadau. Yn gyflym, roedd Gisda wedi fy ngyrru i'w tŷ nhw yng Nghaernarfon. Rŵan, Dyna beth dwi'n alw yn newid hollol i fy mywyd a ni fuaswn yn newid ddim byd am y byd i gyd.

Roedd y cyfrifoldeb a ddaeth yn sydyn yn anodd i ddechrau. Nid oedd plant yn eu harddegau, a oedd yn yr ysgol, yn gallu hawlio budd-dal incwm, nac unrhyw fudd-daliadau eraill ychwaith. Dysgais lawer ar ôl treulio llawer o oriau'r wythnos cael eu gwario yn y swyddfa budd-daliadau, yn trio cael rhyw fath o lefel cefnogaeth ariannol ganddynt. Yn gyntaf, dysgais bod pobl sydd mewn sefyllfa gyda phŵer o ryw fath yn ystyfnig ac yn greulon. Beth bynnag, ni ddaru hyn atal y staff yn nhîm Gisda rhag fy helpu.

Roeddwn yn byw am yr wythnosau cyntaf yn Gisda heb dalu rhent gan fod y biwrocratiaid wedi penderfynu nad oeddynt yn gallu darparu rhent a budd-dal incwm i mi. Fel ffordd o dalu'n ôl roeddwn yn helpu yn y tŷ gyda pheintio drysau ac ystafelloedd, torri'r gwair ayyb. Yn anffodus ddaru jyglo cyfweliadau gyda swyddog budd-daliadau, ac arholiadau TGAU, ddim dod heb bris. Y canlyniad oedd bod graddau fy TGAU wedi disgyn o ganlyniadau arholiadau 'mock' o raddau 'A' i'r canlyniadau terfynol o 'B' a 'C'.

Mae nifer o ystrydebau yn cael ei ymroi i bobl ifanc sydd yn ddigartrefedd. Fedrai eich sicrhau fod dim un o'r rhain yn berthnasol i'r bobl nes i gyfarfod yn Gisda. Roedd pob un ohonynt gyda stori ei hun i'w ddweud, rhai ohonynt wedi byw bywyd caled iawn, wedi ei hel o un golofn i'r llall. Y golofn ddiwethaf oedd fel arfer Gisda, y golofn ddaru bron iawn pob tro rhoi sefydlogrwydd iddynt a theimlad o hunan gyfrifoldeb.

Penderfynais barhau gyda fy astudiaeth a dychwelyd yn ôl i'r ysgol i wneud lefel 'A'. Yn ystod fy lefel 'A', trefnodd staff Gisda i swyddog cysylltiad o'r awyrlu ddod i'r hostel i siarad gyda fi. Dyma ddechreuodd y bennod nesaf yn fy mywyd. Cyn gynted roeddwn wedi rhannu gyda'r swyddog fod gen i 10 TGAU, roedd o wedi cymryd y ffurflenni allan o'i gâs ac

wedi trefnu hyfforddiant sylfaenol yn awyrlu yn Halton trwy'r swyddfa gyrfaoedd yn Wrexham.

Dechreuais yn dechnegydd awyren yn Ebrill 1997. Heddiw dwi'n dal i weithio fel technegydd awyren ond fel dinesydd yn cynnal a chadw hofrennydd chwilio ac achub 'Sea king', yn awyrlu Brenhinol y Fali. Rwy'n byw gyda fy mhartner Zena ac ein tri o blant yng Nghaergybi.

Heblaw am gefnogaeth a chyndynrwydd Gisda does gen i ddim syniad beth fyswn yn ei wneud heddiw. I'r ddiwedd yna rwy'n ddiolchgar ofnadwy i Gisda ac yn arbennig i Mair. Diolch."

Paul